

Gorffennaf 2020

Cyhoeddir ar ran 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru a GwE

Mae ysgolion ar hyd a lled gogledd Cymru wedi adfywio yr wythnos hon wrth i blant a phobl ifanc 'ddod i'r ysgol, dal i fyny a pharatoi ar gyfer mis Medi'.

Anogwyd dysgwyr ym mhob grŵp blwyddyn i ddychwelyd i'r ysgol i gyfarfod â'u hathrawon a'u ffrindiau ar ôl wythnosau o fod o'r dosbarth oherwydd pandemig COVID-19. Cafodd ysgolion ganiatâd i agor, ac mae pum A.LI. o'r chwech yng ngogledd Cymru eisoes wedi croesawu dysgwyr o bob oed. Mae ysgolion Ynys Môn yn barod i groesawu eu dysgwyr unwaith y daw cadarnhad y bu gostyngiad mewn heintiau yn lleol.

Mae gofalu am iechyd a lles dysgwyr, staff ac oedolion ar safleoedd ysgol wedi bod yn flaenoriaeth wrth i ysgolion roi eu cynlluniau ar waith. Mae timau o'r chwe Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi cydweithio i rannu eu harbenigedd a chytuno ar ddull gweithredu cyffredin. Mae arbenigwyr ledled y rhanbarth wedi gweithio gydag ysgolion i ddatblygu asesiadau risg manwl, sy'n rhagweld problemau posibl ac yn rhoi diogelwch yn gyntaf. Gyda'u cymorth, mae arweinwyr ysgolion, staff, llywodraethwyr a theuluoedd wedi gwneud dychwelyd i'r ysgol yn brofiad cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Mae cefnogaeth asiantaethau allanol, cyflenwyr, contractwyr a'r gymuned ehangach wedi helpu ysgolion i weithredu eu cynlluniau. Heb y cyflenwadau ychwanegol, y trefniadau glanhau newydd a chludiant ysgol diogel, ni fyddai ysgolion yn gallu agor yn ddiogel.

Meddai'r Cynghorydd Phil Wynn, Cadeirydd Cyd-bwyllgor GwE, wrth ganmol ymroddiad ac ymrwymiad arweinwyr ysgolion:

"Iechyd a diogelwch ein plant a'n pobl ifanc yw'r flaenoriaeth yn ystod y pandemig. Rydym wedi darparu gweithgareddau ar gyfer plant gweithwyr allweddol er diwedd mis Mawrth. Trwy gydweithio, pleser yn awr yw gweld bod swyddogion awdurdod lleol a Phenaethiaid wedi gallu estyn gwahoddiad i bob plentyn i ddod i'r ysgol, dal i fyny a pharatoi ar gyfer mis Medi, a hynny'n ddiogel."

Meddai Garem Jackson, Pennaeth Addysg Gwynedd ac Is-gadeirydd Bwrdd Rheoli GwE:

"Ar yr adeg hon, mae angen i ni ddiolch yn ddiffuant iawn i rieni a gofalwyr am eu cefnogaeth addysgol dros yr wythnosau diwethaf a'r ffordd maen nhw wedi meithrin partneriaeth fywiog gydag ysgolion. Mae eu cefnogaeth barhaus i ddysgu o bell wedi sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc wedi mwynhau'r cyfle gorau un i gynnal eu profiadau dysgu. O ganlyniad, maen nhw mewn sefyllfa dda i ddychwelyd i'r ysgol i barhau â'u dysgu ac, yr un mor bwysig, i fod gyda'u ffrindiau a'u cyfoedion unwaith eto. Gyda'n gilydd, rydym wedi gweithredu'r trefniadau dod i'r ysgol, dal i fyny fel y camau cyntaf tuag at ysgogi a chyffroi disgyblion i ddysgu unwaith eto."

Rydym wedi gwerthfawrogi ac wedi ystyried y bu peth pryder ac ansicrwydd ar y dechrau. Rydym yn deall hyn. Felly, mae ysgolion ac Awdurdodau Lleol wedi ymgysylltu â rhieni a gofalwyr dros yr wythnosau diwethaf i'w hysbysu am y trefniadau ailagor ac i gynnig sicrwydd ble bo angen. Yn dilyn y dychwelyd i ysgolion ar 29 Mehefin, cafwyd adborth hynod gadarnhaol gan blant a'u rhieni. Hyfryd ac ysbrydoledig yw gweld a chlywed llawenydd ein plant a'n pobl ifanc wrth ddychwelyd i'w lleoliadau cyfarwydd a gweld eu ffrindiau unwaith eto. Mae'n glir na fydd y sefyllfa yr ydym ynddi yn eu digalonni."

Mae staff ein hysgolion a'n hawdurdodau lleol wedi bod yn wych yn sut maen nhw wedi cadw'r dysgu i fynd, ac mae ein dyled yn fawr iddynt. Mae'n glir nad oes ffiniau i ddysgu, ac nid oes modd cyfyngu arno. Gwahoddwn bob rhiant a gofalwr i barhau i fwrw iddi gyda'r broses o ddychwelyd i'r ysgol fel y gallwn gymryd y camau hyn ymlaen gyda'n gilydd, gan gefnogi ein plant i barhau i ddysgu a llwyddo".

Mae Penaethiaid a'u timau wedi croesawu dysgwyr yn ôl i ysgolion ar hyd a lled y rhanbarth:

Meddai **Ellen Williams, Pennaeth Ysgol Brynrefail, Gwynedd:**

"Roeddem yn hynod o falch o weld ein disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol yr wythnos diwethaf. Roeddem wedi cynllunio a pharatoi yn drylwyr iawn ar gyfer ailagor, gyda'r flaenoriaeth uchaf i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff a disgyblion ar y safle. O ganlyniad, fe aeth y trefniadau oll yn esmwyth iawn. Rydym yn hynod o falch o'n disgyblion, a'r modd aeddfed iddynt addasu i'r amodau newydd o weithio ar y safle. Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i'n holl staff a'r rhieni am eu hymddiriedaeth broffesiynol ynom".

Meddai **Debbie Eccles, Ysgol Gynradd Fictoria, Wrecsam:**

"Hoffwn ddweud mor hyfryd oedd gweld y plant a pha mor wybodus oedden nhw am lanweithdra a chadw pellter cymdeithasol. Roeddent yn arddangos ffitrwydd i ddysgu ac yn ysu i fwrw ymlaen. Maen nhw wedi elwa'n fawr iawn ar ddal i fyny gyda'u ffrindiau".

Bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn parhau i ddilyn cyngor Llywodraeth Cymru wrth baratoi ar gyfer mis Medi.